STOPIO A CHWILIO

GWYBOD EICH HAWLIAU

STOP & SEARCH
KNOW YOUR RIGHTS

WELSH

PAM BOD YR HEDDLU YN STOPIO A CHWILIO POBL?

Gall yr heddlu stopio a chwilio pobl er mwyn canfod gwahanol fathau o droseddau. Gall hyn helpu'r heddlu i ddal troseddwyr a gwneud ein cymunedau yn fwy diogel.

BETH YW 'STOPIO A CHWILIO'?

Caiff swyddogion yr heddlu eich stopio a siarad â chi ar unrhyw adeg. Ond ni fyddant yn eich stopio a'ch chwilio oni bai bod ganddynt reswm da i amau eich bod yn cario:

- cyffuriau;
- arfau;
- eiddo wedi ei ddwyn; neu
- offer y gellir eu defnyddio i gyflawni trosedd, er enghraifft i dorri i mewn i dŷ rhywun.

Os bydd yr heddlu yn penderfynu, ar ôl siarad â chi, nad ydynt am eich chwilio, gelwir hyn yn 'stop' yn unig.

PAM FI?

Nid yw'r ffaith eich bod yn cael eich stopio a'ch chwilio yn golygu eich bod wedi gwneud unrhyw beth o'i le. Ond mae'n rhaid i swyddog yr heddlu gael rheswm da dros eich chwilio a dylai ddweud wrthych beth ydyw. Efallai y byddant yn eich stopio a'ch chwilio oherwydd bod trosedd wedi ei chyflawni gerllaw a'u bod yn chwilio am rywun sy'n edrych yn debyg i chi.

Ni ddylent eich stopio a'ch chwilio dim ond oherwydd eich oed, lliw eich croen, steil eich gwallt, y ffordd rydych yn gwisgo, neu oherwydd eich bod wedi cyflawni trosedd yn y gorffennol.

YN LLE Y GALLENT FY STOPIO A'M CHWILIO?

Fel arfer dim ond mewn man cyhoeddus y caiff yr heddlu eich stopio a'ch chwilio. Ond os ydynt yn amau eich bod wedi cyflawni trosedd ddifrifol, gallent eich stopio a'ch chwilio yn unrhyw le.

Os yw'r heddlu yn credu y bydd trais difrifol mewn ardal ar adeg arbennig, gallant chwilio am gyllyll neu arfau eraill. Yn yr achos hwn, gallent chwilio pawb mewn ysgol neu dyrfa ar eu ffordd i gêm bêl-droed.

Os byddwch yn gyrru, gall swyddog yr heddlu eich stopio ar unrhyw adeg a gofyn i chi ddangos eich trwydded gyrru, dogfennau MOT ac yswiriant. Os yw'r heddlu yn amau bod eich cerbyd yn cynnwys eitemau sydd wedi'u dwyn, cyffuriau neu rhywbeth y gellid ei ddefnyddio i gyflawni trosedd, gallent chwilio eich car, hyd yn oed os na fyddwch yn bresennol. Rhaid i'r swyddog adael nodyn yn dweud beth maent wedi'i wneud. Os yw'r chwilio yn achosi difrod, gallwch ofyn i'r heddlu am iawndal. Fodd bynnag, dim ond os na chanfyddir unrhyw beth i'ch cysylltu â throsedd y byddant yn talu hwn.

SUT Y BYDDANT YN FY CHWILIO?

Cyn iddynt eich chwilio, rhaid i swyddog yr heddlu ddweud wrthych:

- ei enw;
- ym mha orsaf heddlu y mae'n gweithio ynddi;
- yr hyn y mae'n chwilio amdano;
- pam y gwnaeth eich dewis.

Os nad yw'r swyddog yn ei lifrai, mae'n rhaid iddo ddangos ei gerdyn gwarant i chi.

Os ydych mewn man cyhoeddus, dim ond eich:

- côt neu siaced; neu
- fenyg

y gallant ofyn i chi eu tynnu.

Os bydd y swyddog yn gofyn i chi dynnu mwy na hynny, er enghraifft eich esgidiau neu het neu sgarff a wisgir am resymau crefyddol, mae'n rhaid iddynt fynd â chi i rywle preifat megis fan yr heddlu neu orsaf yr heddlu. Yn yr achos hwn, mae'n rhaid i'r swyddog sy'n eich chwilio fod o'r un rhyw â chi.

BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

Os cewch eich chwilio, mae'n rhaid i'r heddlu ysgrifennu:

- pam y cawsoch eich chwilio;
- pa bryd ac yn lle y cawsoch eich chwilio;
- yr hyn yr oeddent yn chwilio amdano ac a ddarganfuwyd unrhyw beth;
- enw a rhif y swyddog a fu'n eich chwilio;

BETH SY'N RHAID I MI EI WNEUD?

Bydd yr heddlu yn gofyn am eich enw, cyfeiriad a dyddiad geni.

Nid oes rhaid i chi roi'r wybodaeth hon os nad ydych am wneud hynny. Ond os dywed yr heddlu eu bod yn eich cyhuddo o drosedd, efallai y cewch eich arestio am beidio â dweud wrthynt.

Byddant hefyd yn gofyn i chi am eich cefndir ethnig. Gwneir hyn er mwyn sicrhau nad yw swyddogion yr heddlu yn stopio a chwilio pobl oherwydd eu cefndir ethnig.

Dylai'r heddlu roi copi i chi o'r hyn y maent wedi ei ysgrifennu yn y fan a'r lle, neu gallwch gael copi o swyddfa'r heddlu o fewn 12 mis.

SUT GALLAF GWYNO OS BYDD ANGEN?

Mae'n rhaid i'r heddlu eich trin yn deg, yn gwrtais a chyda pharch. Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd y cawsoch eich trin, peidiwch â chynhyrfu, ond gallwch gwyno. Cadwch gopi o'r manylion a ysgrifennwyd pan gawsoch eich chwilio ganddynt. Bydd hyn yn eich helpu os bydd angen i chi wneud cwyn.

Cewch wneud cwyn:

- i'ch gorsaf heddlu leol;
- i'ch awdurdod heddlu lleol;
- i'ch Canolfan Cynghori;
- i gyfreithiwr.

Bwriad hyn yw eich helpu i ddeall y gweithdrefnau 'stopio a chwilio'. Canllaw yn unig ydyw ac nid yw'n cwmpasu'r gyfraith i gyd.

or visit the Association of Police Authorities website at www.apa.police.uk

Association of Police Authorities

STOP & SEARCH
KNOW YOUR RIGHTS